



Aelodau'r Cynulliad

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

21 Tachwedd 2019

Annwyl Aelod,

Rwy'n ysgrifennu atoch yn dilyn cwestiwn a godwyd yn y Cyfarfod Llawn gan Nick Ramsay ar 2 Hydref, i roi'r newyddion diweddaraf ichi ar ddatblygiad y rhaglen Mynediad i Bawb.

Y Barri

Ar hyn o bryd o fewn y cyfnod dylunio amlinellol drwy waith a wnaethpwyd eisoes, mae Network Rail yn mynd ymlaen â'r broses o gaffael adolygiad o gynllun a chynllun manwl a darparu yr orsaf hon. Rhagwelir y bydd gwaith yn dechrau ar y safle yn ystod hydref 2020, gan gwblhau yn ystod yr ail chwarter yn 2021. Os nad yw'r ymarfer caffael hwn yn nodi nifer o newidiadau yn y cynllun y gellir eu cynnwys yn effeithiol, bydd y cynllun yn debyg iawn i'r bont droed a'r lifftiau a osodwyd yn Nhregatwg yn ddiweddar.

Llanelli

Yn y cam cynllunio amlinellol ar hyn o bryd drwy waith a gynhaliwyd eisoes, mae'r rhaglen Mynediad i Bawb yn datblygu cyfle i ddefnyddio cynllun pont droed a lifft newydd gwell mewn gorsafoedd yng Nghymru a gobeithir mai Llanelli fydd y cyntaf i osod un o'i fath. Bydd hyn yn arwain at newid i'r cynllun a ddatblygwyd eisoes fydd yn ymestyn y datblygiad ac felly y rhaglen gyffredinol (mewn perthynas â'r Barri) wrth i'r prosiect weithio drwy nodweddion y cynllun ac ymgynghoriadau. Bydd hyn yn golygu cyfleusterau gwell i deithwyr, nid yn unig yn Llanelli, ond mewn gorsafoedd eraill yng Nghymru. Yn amodol ar yr ymgynghoriadau hyn, rhagwelir y bydd gwaith yn dechrau ar y safle ar ddiwedd Gwanwyn 2021 gan gwblhau yng Ngwanwyn 2022.

Y Fenni

Wedi'i ddatblygu yn y gorffennol fel cynllun amlinellol a Chydsyniad Adeilad Rhestredig oddeutu 2013, cafwyd oedi gyda'r prosiect o ganlyniad i'r effaith fyddai'r cynllun yn ei gael ar signalau yn yr orsaf; yn benodol lleoliad y signal goleuadau ar blatfform 2 ar gyfer gwasanaethau i'r de. Mae Network Rail yn edrych ar yr opsiynau i wella lleoliad y signal goleuadau. Mae Network Rail yn rhagweld y gellir datblygu datrysiad i'r signal a fydd yn cadw prif agweddau y bont droed a'r cynllun blaenorol, fodd bynnag mae hyn yn amodol ar benderfynu ar opsiynau o ran ble i osod y signal. Unwaith y byddwn yn cytuno ar yr opsiwn ar gyfer y signal, bwriad y prosiect yw gwerthuso cynllun blaenorol y bont droed yn erbyn y cynlluniau newydd gwell y maent yn ceisio eu cyflwyno i sefydlu tebygolrwydd bod y cynlluniau newydd yn derbyn caniatâd cynllunio a Chydsyniad Adeilad Rhestredig. Mae'n debygol iawn y bydd y cynlluniau newydd yn cael eu derbyn, a bydd rhain yn cael eu datblygu yn lle y cynllun gwreiddiol yn Y Fenni.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cwmbrân, Dinbych-y-pysgod a Llwydlo

Mae Network Rail yn caffael gwasanaethau ar hyn o bryd i ddatblygu y broses o ddewis opsiwn a'r camau cynllunio amlinellol ar gyfer Cwmbrân, Llwydlo a Dinbych-y-pysgod fel pecyn o waith. Disgwylir i'r broses dewis opsiwn gael ei gwblhau erbyn mis Mai 2020. Er yn amodol ar y broses dewis opsiwn bydd yn cynnwys adolygiad o'r cyfyngiadau ar orsafoedd ac ymgynghoriadau gyda chynrychiolwyr pobl sydd ag anableddau a grwpiau defnyddwyr eraill, mae Network Rail yn rhagweld y bydd y bont droed a'r cynlluniau hyn ar gyfer lifftiau yn cael eu datblygu yng Nghwmbrân a Dinbych-y-pysgod, tra y gellid datblygu ateb fyddai'n tarfu llai nag adeilad hollol newydd yn Llwydlo, drwy gael lifft neu ramp i gysylltu'r bont droed bresennol. Gellid dechrau gwaith ar y gorsafoedd hyn erbyn dechrau 2022, gan gwblhau ar ddiwedd 2022.

Flint

Mae cynllun a ariannwyd yn y gorffennol gan Lywodraeth Cymru (y tu allan i raglen Mynediad i Bawb) wedi datblygu y broses dewis opsiwn ar gyfer yr orsaf hon. Mae'r opsiwn a ffeirir ar gyfer pont droed a lifftiau newydd ar yr un lleoliad â'r bont droed bresennol yn galw am ymgynghori a thrafod â'r Swyddog Cadwraeth Lleol a CADW. Mae Network Rail wedi dechrau ar y trafodaethau hynny a bydd y canlyniad yn penderfynu ar fath a graddfeydd y datblygiad fydd yn digwydd.

Shotton

Gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, mae Network Rail yn datblygu opsiynau ar hyn o bryd ar gyfer cynnig i integreiddio gorsafoedd lefel Shotton Uchaf a Shotton Isaf. Bydd y gwerthusiad o'r opsiynau hefyd yn cynnwys darpariaeth ar gyfer elfen mynediad heb risiau i'w ariannu o dan y rhaglen Mynediad i Bawb. Mae y cam dewis opsiwn i gael ei gwblhau erbyn Ebrill 2020, pan fydd gwerthusiad yn cael ei wneud gydag arianwyr a rhanddeiliaid cam nesaf y prosiect i fynd ymlaen. Gallai hyn gynnwys cynllun cychwynnol Mynediad i Bawb i ddarparu mynediad heb risiau i'r gorsafoedd ar lefel uchel ac isel gyda darpariaeth ar gyfer gwaith yn y dyfodol, hyd at gynllun i integreiddio gorsaf lawn. Byddai amserlenni a chwmpas y prosiectau felly'n cael eu diffinio ymhellach hyd at wanwyn 2020.

Trefforest, Cathays a Cwmbrân

Mae'r dair orsaf hon yn cael eu datblygu gan Trafnidiaeth Cymru drwy eu timau cyflenwi Rheilffyrdd Craidd y Cymoedd. Er bod Trefforest wedi ei ddatblygu yn y gorffennol i gynllun amlinellol, mae hyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Trafnidiaeth Cymru i sicrhau bod y cynnig yn bodloni eu polisi buddsoddi ac yn cyd-fynd â chynigion buddsoddi pellach ar gyfer yr orsaf. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn penderfynu a fydd y cynllun presennol yn cael ei ddatblygu ar amserlen debyg i'r Barri (sef cwblhau y cynllun amlinellol a manwl dros y 12 mis nesaf cyn dechrau ar y safle ar ddiwedd 2020), neu a fyddwn yn edrych eto ar y cynllun.

Mae Cathays yn amodol ar ddatblygu opsiynau cyn trafod gyda rhanddeiliaid lleol ynghylch yr egwyddor i'w datblygu Mae Caerffili ar yr un cam ac mae disgwyl iddynt ddilyn yr un amserlen ar gyfer cynllunio a gweithredu â phecyn Cwmbrân, Dinbych-y-pysgod a Llwydlo.

Yn gywir,



Ken Skates AC/AM

Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport